WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Trefniadau Ansawdd Data yr Adran Sgrinio

## Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Cyhoeddwyd:** Awst 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 348A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen

hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

Gareth Hingston a gyflawnodd y gwaith hwn.

# Cynnwys

Er bod gan Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru drefniadau digonol ar waith i sicrhau bod data yr Adran Sgrinio yn gadarn, mae angen cryfhau'r trefniadau llywodraethu i ddarparu sicrwydd bod ansawdd data yn gyson ledled y sefydliad.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| Er bod uwch reolwyr yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd data, nid yw dulliau adrodd ar ansawdd data wedi'u diffinio'n ffurfiol, a gellid cryfhau'r trefniadau ar gyfer darparu sicrwydd i'r Bwrdd | 7 |
| Mae gan yr Ymddiriedolaeth weithdrefnau a phrosesau sydd wedi'u hen sefydlu i wella ansawdd data yn yr Adran Sgrinio ond nid oes ganddi bolisi cyffredinol ar ansawdd data ledled yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau cysondeb a monitro parhaus | 9 |
| Atodiadau | |
| Llythyr gweinidogol – Argymhellion Adolygiad Ymweliadau Safle Ansawdd Data Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Corfforaethol | 12 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Mae'r GIG yng Nghymru yn defnyddio gwybodaeth fel rhan annatod o'r broses o ddarparu gwasanaethau iechyd. Ar lefel weithredol, mae cyrff y GIG yn llwyr ddibynnol ar systemau gwybodaeth electronig i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau allweddol gan gynnwys:

- gwaith gweinyddu, archebu a threfnu apwyntiadau ar gyfer cleifion;
- prosesau diagnostig, trefnu profion, gofyn am ganlyniadau a'u gweld;
- cyfuno llwybrau gofal sylfaenol ac eilaidd, gan rannu gwybodaeth hollbwysig am gleifion a allai achub bywydau;
- trefniadau rheoli perfformiad ac ariannol effeithiol;
- nodi anghenion cleifion ac anghenion demograffig, fel bod modd teilwra gwasanaethau a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar feysydd lle gwelir y budd mwyaf;
- systemau galw ac ail-alw ar gyfer rhaglenni sgrinio'r boblogaeth a rhaglenni brechu;
- nodi a chyflawni canlyniadau clinigol, busnes ac iechyd cyhoeddus.

**2.** Mae gwybodaeth o ansawdd da yn hanfodol ar gyfer cynllunio a rheoli gwasanaethau, gwneud penderfyniadau am berfformiad a llywodraethu, ac fel sail i benderfyniadau am flaenoriaethau a sut i ddefnyddio adnoddau. Mae'r defnydd gweithredol o wybodaeth gadarn i gefnogi gwasanaethau gofal iechyd diogel, effeithiol o ansawdd da yn hollbwysig hefyd. Dylai sicrhau data o ansawdd da felly fod yn rhan annatod o drefniadau gweithredol, rheoli perfformiad a llywodraethu sefydliad.

**3.** Yn 2008, cynhaliodd y Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gorfforaethol (CHIP), sydd bellach yn rhan o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, adolygiad o ansawdd data. Roedd y canfyddiadau'n dangos bod trefniadau rheoli, monitro ac ymdrin ag ansawdd data yn amrywio rhwng sefydliadau. Er bod arferion da i'w gweld mewn nifer o sefydliadau, roedd tystiolaeth hefyd o arferion gwael ym mhob sefydliad mewn perthynas ag arferion gweithredol a threfniadau llywodraethu ansawdd data. Cafodd yr argymhellion y dylai sefydliadau'r GIG eu gweithredu yn dilyn adolygiad y CHIP eu cyflwyno mewn Llythyr Gweinidogol ym mi Medi 2008 (Atodiad 1).

**4.** Fel rhan o'n gwaith i adolygu trefniadau cyrff y GIG i sicrhau y gwneir defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, rydym wedi archwilio trefniadau ansawdd data Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Er nad yw'r archwiliad hwn yn deillio'n uniongyrchol o argymhellion adolygiad CIHP 2008, rydym wedi ystyried y cynnydd a wnaed ar y materion a nodwyd yn adroddiad y CIHP.

**5.** Wrth drafod â'r Ymddiriedolaeth, canolbwyntiodd yr adolygiad ar yr Adran Sgrinio yng nghyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus. Rydym felly wedi ystyried y canlynol:

- trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas ag ansawdd data; a
- threfniadau gweithredol o ran ansawdd data mewn perthynas â'r Adran Sgrinio, yn cynnwys swyddi a chyfrifoldebau, polisïau a gweithdrefnau a dulliau o fonitro effeithiolrwydd y prosesau ansawdd data a chyflwyno adroddiadau arnynt.

**6.** Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rydym wedi adolygu dogfennaeth berthnasol ac wedi cynnal cyfweliadau â staff allweddol. Mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar drefniadau ansawdd data mewn perthynas â data'r Ymddiriedolaeth ei hun fel rhan o'i gweithgareddau bob dydd.

**7.** Pwrpas yr adolygiad hwn yw gweld a oes gan Adran Sgrinio'r Ymddiriedolaeth drefniadau ansawdd data effeithiol.

**8.** Casgliad yr adolygiad: Er bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau digonol ar waith i sicrhau bod data yr Adran Sgrinio yn gadarn, mae angen cryfhau'r trefniadau llywodraethu i ddarparu sicrwydd bod ansawdd data yn gyson ledled y sefydliad. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- er bod uwch reolwyr yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd data, nid yw dulliau adrodd ar ansawdd data wedi'u diffinio'n ffurfiol, a gellid cryfhau'r trefniadau ar gyfer darparu sicrwydd i'r Bwrdd:
  - mae uwch reolwyr yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd data ac yn buddsoddi mewn gwelliannau;
  - nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi datgan cyfrifoldeb corfforaethol dros ansawdd data'n glir ac nid oes ganddi systemau ar gyfer codi materion ansawdd data gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth; ac
  - mae cyfrifoldeb unigol am ansawdd data yn yr Adran Sgrinio wedi'i nodi'n glir ond mae'r cyswllt rhwng trefniadau gweithredol a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd yn aneglur.
- mae gan yr Ymddiriedolaeth weithdrefnau a phrosesau sydd wedi'u hen sefydlu i wella ansawdd data yn yr Adran Sgrinio ond nid oes ganddi bolisi cyffredinol ar ansawdd data ledled yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau cysondeb a monitro parhaus:
  - nid oes gan yr Ymddiriedolaeth bolisi cyffredinol ar gyfer gwella ansawdd data ond mae gan yr Adran Sgrinio brosesau a gweithdrefnau ansawdd data effeithiol;
  - mae staff y gwasanaeth sgrinio'n derbyn hyfforddiant digonol ar systemau gweithredol ond nid yw ansawdd data yn rhan annatod o'r hyfforddiant; ac
- mae data'r Adran Sgrinio'n cael ei ddilysu'n effeithiol o ddydd i ddydd ond nid oes rhaglen archwilio barhaus i asesu ansawdd data.

# Argymhellion

**9.** Er mwyn helpu'r Ymddiriedolaeth i wella trefniadau ansawdd data rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

| | |
|---|---|
| **Sicrhau ansawdd data** | |
| A1 | Cyflwyno adroddiad blynyddol ar ansawdd data i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, fel yr argymhellir yn CHIP Llywodraeth Cymru yn 2008, sy'n cwmpasu mesurau ansawdd data, y trefniadau sydd ar waith i wella ansawdd data ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn. |
| A2 | Pennu cyfres o ddangosyddion perfformiad fel y gall y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth fesur gwelliannau i ansawdd data a gedwir gan yr Ymddiriedolaeth. |
| **Sicrhau ansawdd data** | |
| A3 | Ffurfioli ac egluro cyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth mewn perthynas ag ansawdd data a sicrhau bod ansawdd data yn ymddangos fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd. |
| A4 | Adolygu'r trefniadau ledled cyfarwyddiaethau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i adolygu a gwella ansawdd data. |
| **Prosesau ansawdd data** | |
| A5 | Sefydlu fframwaith cyffredinol i'r Ymddiriedolaeth gyfan, fel yr argymhellodd CHIP Llywodraeth Cymru yn 2008, sy'n nodi:<br>• strwythurau llywodraethu;<br>• swyddi a chyfrifoldebau unigol mewn perthynas ag ansawdd data;<br>• gofynion polisi a safonau data;<br>• y defnydd o gofnodion cleifion;<br>• sut y bydd data'n cael ei gadw'n ddiogel a chyfrinachol;<br>• awgrym o ansawdd y data sy'n sail i adroddiadau perfformiad ar gyfer y Bwrdd, yn cynnwys ffynonellau data eilaidd; a<br>• trefniadau hyfforddi a chyfathrebu ar gyfer gwella ansawdd data. |
| A6 | Cynnwys polisïau a gweithdrefnau ansawdd data ym mhroses sefydlu neu hyfforddiant pob gweithiwr newydd sy'n gyfrifol am fewnbynnu, dadansoddi neu ddiwygio data clinigol a busnes; a darparu hyfforddiant gloywi fel bo angen i'r gweithwyr hyn a staff eraill. |
| A7 | Sicrhau bod un unigolyn o'r Adran Sgrinio yn gyfrifol am goladu a rheoli'r materion ansawdd data sy'n codi mewn grwpiau gweithredol a chyflwyno'r rhain i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, lle y bo'n briodol. |
| **Monitro ansawdd data** | |
| A8 | Cyflwyno rhaglen o archwiliadau ansawdd data ar gyfer meysydd gwybodaeth allweddol i ddarparu monitro parhaus. |

# Er bod uwch reolwyr yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd data, nid yw dulliau adrodd ar ansawdd data wedi'u diffinio'n ffurfiol, a gellid cryfhau'r trefniadau ar gyfer darparu sicrwydd i'r Bwrdd

## Mae uwch reolwyr yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd data ac yn buddsoddi mewn gwelliannau

**10.** Mae'r Ymddiriedolaeth a'i staff rheoli'n cydnabod bod ansawdd data'n bwysig ar gyfer cynllunio a darparu ei gwasanaethau, yn ogystal â rheoli perfformiad. Y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yw'r swyddog gweithredol arweiniol ar gyfer llywodraethu gwybodaeth ac yn sgil hynny, ansawdd data, sy'n hysbys i raddau helaeth ymhlith y rhai a holwyd, ledled yr Ymddiriedolaeth.

**11.** Mae uwch staff rheoli wedi dangos eu bod wedi ymrwymo i ansawdd data drwy fuddsoddi mewn technoleg gwybodaeth, tîm o staff i gefnogi ansawdd data a rhaglen ganolog o hyfforddiant i staff sy'n 'trafod' data.

## Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi datgan cyfrifoldeb corfforaethol dros ansawdd data'n glir ac nid oes ganddi systemau ar gyfer codi materion ansawdd data gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth

**12.** Mae materion ansawdd a llywodraethu gwybodaeth yn gymhleth a gallant gynnwys llawer o adrannau a phroffesiynau gwahanol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth sefydledig sy'n cyfarfod bob chwarter ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd. Caiff y pwyllgor ei gadeirio gan aelod anweithredol o'r bwrdd ac mae'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch trefniadau rheoli data'r Ymddiriedolaeth, yn cynnwys cynhyrchu, casglu, storio, lledaenu, rhannu, defnyddio a gwaredu data. Ni cheir cyfeiriad at ansawdd data yng nghylch gorchwyl y pwyllgor ac nid yw ansawdd data yn eitem reolaidd ar yr agenda. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn cyflwyno adroddiad diweddaru i'r Bwrdd, sydd fel rheol yn cynnwys nifer y ceisiadau rhyddid gwybodaeth a dderbyniwyd ac achosion o lywodraethu gwybodaeth. Nid yw'r adroddiad diweddaru'n cynnwys gwybodaeth am ansawdd data.

**13.** Mae adroddiad CIHP 2008 yn argymell bod yr ymddiriedolaeth yn llunio adroddiad blynyddol ar ansawdd data. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu'r argymhelliad hwn eto. Byddem yn disgwyl i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth baratoi'r adroddiad hwn i'w roi i'r Bwrdd gyda sicrwydd am ansawdd data.

**14.** Cymeradwywyd Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth yn 2011 ac mae'n cyfeirio at yr angen i sicrhau bod ansawdd data yn gadarn ac yn amserol, fel y nodwyd yn Safon Gofal Iechyd 19 ar Reoli Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu. Yn ogystal, un o nodau strategol allweddol y strategaeth yw sicrhau bod uniondeb data a gwybodaeth yn cael ei ddiogelu, gan sicrhau bod data a gwybodaeth dilys, cywir, cyflawn ac amserol ar gael i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau ledled y sefydliad.

Mae'r Polisi Llywodraethu Gwybodaeth drafft hefyd yn amlygu ansawdd data fel elfen allweddol o lywodraethu gwybodaeth. Nid yw'n nodi sut y bydd ansawdd data'n cael ei asesu na phwy sy'n gyfrifol am sicrhau asesiad parhaus. Yn absenoldeb safonau ansawdd data penodedig neu ddangosyddion perfformiad cysylltiedig, ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn gallu mesur ansawdd ei ddata nac i ba raddau mae ansawdd data'n gwella.

**15.** Mae gan yr Adran Sgrinio nifer o grwpiau gweithredol sy'n trafod a mynd i'r afael â materion ansawdd data. Er enghraifft, mae gan y pedair rhaglen sgrinio sefydledig (Sgrinio'r Fron, Coluddyn, Serfigol a Chlyw Babanod):

- grŵp rheoli Cymru gyfan;
- grŵp uwch reoli;
- grŵp rheoli lleol; a
- grŵp defnyddwyr systemau, fel grwpiau System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CANISC) a System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Coluddion (BSIMS).

**16.** Fodd bynnag, nid yw cylch gorchwyl y grwpiau hyn yn cynnwys llywodraethu gwybodaeth felly nid yw'n cynnwys ansawdd data. Nid oes un person penodol yn gyfrifol am gasglu a rheoli'r materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hyn. Ymhellach, nid yw'r llwybr i'r grwpiau hyn godi materion ansawdd data ac adrodd amdanynt i'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i ddiffinio'n ffurfiol.

## Mae cyfrifoldeb unigol am ansawdd data yn yr Adran Sgrinio wedi'i nodi'n glir ond mae'r cyswllt rhwng trefniadau gweithredol a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd yn aneglur

**17.** Er mai'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yw'r swyddog gweithredol arweiniol ar gyfer llywodraethu gwybodaeth nid oes unigolyn penodol yn gweithio fel cydgysylltydd neu hyrwyddwr ar gyfer ansawdd data ledled y sefydliad. Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried a ellid cynnwys rôl cydgysylltydd neu hyrwyddwr ansawdd data yng nghyfrifoldebau'r swyddogion cyswllt llywodraethu gwybodaeth lleol fel y disgrifiwyd yn y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth drafft. Byddai hyn yn helpu i ddarparu cyswllt rhwng trefniadau gweithredol ar gyfer ansawdd data a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd.

**18.** Mae yna swyddogion penodol mewn adrannau yn gyfrifol am ansawdd data gyda Phennaeth Gwybodeg yr Adran Sgrinio yn atebol yn weithredol am ansawdd data. Mae'r Uwch Reolwr Gwybodaeth yn adrodd i Bennaeth Gwybodeg yr Adran Sgrinio. Mae'r uwch reolwr yn arwain tîm canolog bychan, sy'n gyfrifol am gefnogi, datblygu a rheoli'r cronfeydd data sgrinio a chyfrannu at wella ansawdd data. Mae swyddogion gwybodaeth yn arbenigo mewn rhaglenni sgrinio dethol, gan sicrhau adnabyddiaeth a dealltwriaeth sy'n cefnogi ansawdd data gwell.

**19.** Mae disgrifiadau swydd cyfredol staff yr Adran Gwybodaeth a staff sy'n gyfrifol am fewnbynnu data yn cynnwys cyfrifoldebau am ansawdd data. Caiff hyn ei gefnogi gan ddiwylliant o wella ansawdd data yn yr Adran Sgrinio, sy'n cael ei arddel gan y staff a holwyd.

# Mae gan yr Ymddiriedolaeth weithdrefnau a phrosesau sydd wedi'u hen sefydlu i wella ansawdd data yn yr Adran Sgrinio ond nid oes ganddi bolisi cyffredinol ar ansawdd data ledled yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau cysondeb a monitro parhaus

## Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth bolisi cyffredinol ar gyfer gwella ansawdd data ond mae gan yr Adran Sgrinio brosesau a gweithdrefnau ansawdd data effeithiol

**20.** Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth bolisi ansawdd data fel yr argymhellwyd yn adroddiad CIHP 2008. Mae absenoldeb polisi o'r fath ac felly diffyg safonau ansawdd data'n cynyddu'r risg o ddulliau monitro a gwella ansawdd data anghyson. Elfennau cyffredin sy'n cael eu trafod ym mholisïau ansawdd data byrddau iechyd ledled Cymru ac y gallai'r Ymddiriedolaeth eu hystyried yw:

- strwythurau llywodraethu;
- swyddi a chyfrifoldebau unigol mewn perthynas ag ansawdd data;
- gofynion polisi a safonau data;
- y defnydd o gofnodion cleifion;
- sut y bydd data'n cael ei gadw'n ddiogel a chyfrinachol;
- ansawdd y data sy'n sail i adroddiadau perfformiad ar gyfer y Bwrdd; a
- data gan ddarparwyr eraill; a
- trefniadau hyfforddi a chyfathrebu ar gyfer gwella ansawdd data..

**21.** Mae manylion prosesau a gweithdrefnau ansawdd data'n cael eu cynnwys yng ngweithdrefnau gweithredu safonol a llawlyfrau ansawdd pob rhaglen sgrinio. Mae'r dogfennau hyn yn rheoli'r dulliau ar draws yr Adran Sgrinio, yn cynnwys y Tîm Gwybodaeth, er mwyn sicrhau cysondeb. Mae'r Cyfarwyddwr Sgrinio wedi cymeradwyo'r llawlyfrau hyn, sy'n cael eu hadolygu'n ffurfiol yn rheolaidd.

**22.** Mae amrywiaeth o systemau electronig yn cefnogi ansawdd data, er enghraifft, System Ddemograffig Cymru, Exeter, CANISC a'r BSIMS. Mae'r systemau hyn yn galluogi staff yr Ymddiriedolaeth i groeswirio a dilysu gwybodaeth am gleifion.

## Mae staff y gwasanaeth sgrinio'n derbyn hyfforddiant digonol ar systemau gweithredol ond nid yw ansawdd data yn rhan annatod o'r hyfforddiant

**23.** Nid yw hyfforddiant ar ansawdd data yn rhan o hyfforddiant sefydlu staff ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i holl ddefnyddwyr ceisiadau sgrinio gael hyfforddiant ffurfiol ar ddefnyddio systemau, a gydgysylltir yn ganolog gan y Tîm Gwybodaeth, cyn eu cymeradwyo i ddefnyddio'r system. Mae staff yn derbyn hyfforddiant ychwanegol wedi'i addasu'n arbennig ar gyfer y rhaglenni sgrinio penodol.

**24.** Mae'r Tîm Gwybodaeth wedi cadarnhau bod pwysigrwydd ansawdd data'n cael ei gadarnhau yn ystod hyfforddiant ar gyfer cymwysiadau. Fodd bynnag, ni cheir modiwl ar wahân ar bwysigrwydd ansawdd data na chanlyniadau negyddol data o ansawdd gwael mewn perthynas â gofal cleifion na'i effaith ar y sefydliad.

**25.** Pan fydd systemau'n cael eu huwchraddio, ystyrir yr angen am hyfforddiant ategol sy'n cael ei gydgysylltu'n ganolog. Ar hyn o bryd, ni cheir rhaglen o hyfforddiant gloywi i staff. Mae unrhyw newidiadau i systemau yn cael eu cyflwyno i'r staff drwy'r grwpiau gweithredol y cyfeirir atynt ym mharagraff 15.

**26.** Mae'r Polisi Llywodraethu Gwybodaeth drafft yn datgan yn glir y bydd hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth yn rhan o hyfforddiant sefydlu staff gyda hyfforddiant gloywi gorfodol yn digwydd bob tair blynedd. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth yn cynnwys ansawdd data.

## Mae data'r Adran Sgrinio'n cael ei ddilysu'n effeithiol o ddydd i ddydd ond nid oes rhaglen archwilio barhaus i asesu ansawdd data

**27.** Mae ansawdd gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar ddulliau sicrhau adborth effeithiol i wirio bod data'n ddilys, cywir, cyflawn ac amserol. Mae Rheolwr Busnes yr Adran Sgrinio'n gyfrifol am lunio adroddiadau chwarterol ar bob un o'r rhaglenni sgrinio i Dîm Gweithredol yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiadau hyn yn cymharu perfformiad gyda thargedau cenedlaethol.

**28.** Mae'r Tîm Gwybodaeth yn cynnal nifer o brosesau a gweithdrefnau i sicrhau uniondeb y data sy'n cefnogi'r cyflwyniadau hyn, yn cynnwys:

- trefnau ar gyfer cynnwys data demograffig o ffynonellau allanol;
- gwiriadau i sicrhau bod y cleifion priodol yn cael eu gwahodd i apwyntiad sgrinio yn seiliedig ar eu manylion demograffig;
- gwiriadau di-feth i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu derbyn yn brydlon; a
- gweithdrefnau i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu dyrannu i'r cofnodion cleifion cywir.

**29.** Pan nodir anghysondebau, mae'r Tîm Gwybodaeth yn trafod gyda chydgysylltwyr y rhaglenni sgrinio i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cywiro a bod camau'n cael eu cyflwyno i atal materion rhag codi eto. Pan fo'r adroddiadau'n nodi amrywiadau anesboniadwy neu annisgwyl mewn perfformiad, bydd ansawdd y data sy'n cefnogi'r adroddiadau'n cael ei ystyried. Mae'r Uwch Reolwr Gwybodaeth a'r Rheolwr Busnes yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion ansawdd data.

**30.** Roedd adroddiad CHIP 2008 yn argymell y dylid cynnal archwiliadau ansawdd data lleol yn gyson i sicrhau proses o fonitro cywirdeb data'n barhaus. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal unrhyw adolygiadau o ansawdd data ers ei sefydlu ym mis Hydref 2009, na bod unrhyw adolygiadau allanol o ansawdd data wedi'u cynnal, ac eithrio'r adolygiad hwn.

# Atodiad 1

## Llythyr y Gweinidog – Argymhellion yr Adolygiad o Ymweliadau Safle i Sicrhau Ansawdd Data y Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gorfforaethol

**Edwina Hart AC MBE**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Minister for Health and Social Services**

Ein cyf: SF/EH/-476/08
EH/ML/007/08

At: Gadeiryddion Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol

Medi 2008

Annwyl Gadeirydd

**Argymhellion yr Adolygiad o Ymweliadau Safle i Sicrhau Ansawdd Data y Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gorfforaethol (CHIP)**

Mae'r llythyr hwn yn cyflwyno'n ffurfiol yr argymhellion a'r camau gweithredu i'w rhoi ar waith gennych chi yn sgil canfyddiadau'r Adolygiad o Ymweliadau Safle i Sicrhau Ansawdd Data y CHIP a gynhaliwyd yn ystod 2007/2008.

Ddiwedd 2007/08, ymwelodd Rheolwr Gwella Ansawdd Data y CHIP â'r tair ymddiriedolaeth ar ddeg sydd gan y GIG yng Nghymru (yn seiliedig ar batrwm ymddiriedolaethau 2007/08) a Bwrdd Iechyd Lleol Powys i weld pa drefniadau llywodraethu a phrosesau gweithredol lleol sy'n bodoli ar gyfer sicrhau bod ansawdd y data a gyflwynir gan bob Ymddiriedolaeth i ddiweddaru gwahanol gronfeydd data cenedlaethol yn cael ei gynnal i lefel uchel.

Rhoddwyd sylw i naw prif faes pwnc yn ystod cyfarfodydd â staff priodol o bob sefydliad. Defnyddiwyd holiadur a thrafodwyd y meysydd pwnc canlynol:

- Swyddogaeth uwch reolwyr a threfniadau atebolrwydd lleol ar gyfer sicrhau ansawdd data;
- Trefniadau archwilio / llywodraethu ansawdd data lleol;
- Ymwybyddiaeth staff ac adroddiadau mewnol ar berfformiad ansawdd data;
- Defnyddio'r Gwasanaeth Dilysu yn y Ffynhonnell (VASS)

- Pryderon Ymddiriedolaethau ynghylch trefnau safoni data Gofal Cleifion a Dderbyniwyd i'r Ysbyty (APC);
- Rhoi trefn ar achosion dydd;
- Dulliau adrodd cenedlaethol ar gyfer ansawdd data;
- Gweithredu argymhellion Prosiect Cymharu Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW);
- Statws cyfredol a chyfeiriad arfaethedig Prosiect Gwella Ansawdd Data y CHIP.

Cafodd pob sefydliad gyfle i sicrhau ansawdd canfyddiadau eu hymweliad. Dosbarthwyd y rhain i'r arweinwyr gweithredol sy'n gyfrifol am ansawdd data ym mhob sefydliad gan ofyn iddynt gyflwyno sylwadau. Dosbarthwyd yr adroddiad i holl Brif Weithredwyr y GIG er gwybodaeth cyn ei gyhoeddi'n derfynol.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod gan sefydliadau wahanol ddulliau o reoli, monitro a mynd i'r afael ag ansawdd data. Roedd arferion da i'w gweld mewn nifer o sefydliadau ac ar draws amrywiaeth o feysydd pwnc. Cafodd tystiolaeth o arferion gwael ei nodi a'i rhannu hefyd er mwyn i sefydliadau sydd angen gwella ddefnyddio'r adroddiad fel sail i adolygu eu harferion cyfredol.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymweliadau, dylid mabwysiadu'r arferion gorau canlynol mewn perthynas â rheoli ansawdd data yn yr hirdymor:

i. Dylai Ymddiriedolaethau GIG Cymru sicrhau bod y Weithrediaeth yn canolbwyntio ar ansawdd data, gan annog dull sefydliad cyfan o'i reoli, a fydd yn cynnwys nodi a dilysu camgymeriadau a nodwyd mewn ansawdd data.

ii. Dylai Ymddiriedolaethau'r GIG sicrhau bod perfformiad ansawdd data ac unrhyw ddatblygiad sefydliadol mewn perthynas ag ansawdd data yn rhan o holl adroddiadau perfformiad yr Ymddiriedolaeth, gan sicrhau bod y cysylltiad agos rhwng perfformiad yr adroddir arno ac ansawdd data yn cael ei gynnal yn barhaus a bod ansawdd data yn cael llawer o sylw'n gyson.

iii. Dylai Bwrdd pob Ymddiriedolaeth gomisiynu adroddiad blynyddol ffurfiol ar ansawdd data i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar wella'n barhaus.

iv. Dylai bod gan bob Ymddiriedolaeth bolisi ansawdd data sy'n cydnabod cyfrifoldebau'r sefydliad. Dylai'r polisi ddiffinio'r canlynol (o leiaf):

    - Y fframwaith atebolrwydd lleol;
    - Y cyfrifoldebau ar gyfer ansawdd data ar bob lefel a sut y bydd hyn yn cael ei gynnwys yn niwylliant y sefydliad;
    - Prosesau gweithredol y sefydliad ar gyfer nodi a chywiro camgymeriadau mewn ansawdd data;
    - Dulliau cyfathrebu ansawdd data;
    - Y broses a ddefnyddir i adolygu'r polisi yn rheolaidd.

v. Dylai Ymddiriedolaethau sicrhau bod ganddynt fforwm lle gellir trafod materion ansawdd data'n rheolaidd a bod gan yr aelodau'r awdurdod i ysgogi gwelliannau.

vi. Dylai Ymddiriedolaethau sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda staff cofnodi data ynglŷn â materion ansawdd data.

vii. Dylai pwysigrwydd ansawdd data fod yn elfen o broses sefydlu staff.

viii. Dylid cynnal archwiliadau rheolaidd o ansawdd data lleol i sicrhau bod proses fonitro cywirdeb data barhaus yn cael ei chynnal.

ix. Dylid darparu hyfforddiant gloywi ar y System Gweinyddu Cleifion i bob defnyddiwr gwasanaeth yn rheolaidd.

x. Dylid cynnwys ansawdd data yn amlinelliadau y Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth a disgrifiadau swyddi staff priodol.

Am fanylion pellach, dylai darllenwyr gyfeirio at yr Adroddiad llawn ar Ymweliadau Safle i Sicrhau Ansawdd Data yn http://howis.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgId=460&id=142611 neu ffonio'r Rhaglen Gwella Iechyd Gorfforaethol ar 029 2020 7606.

**Camau i'w cymryd**

Mae gofyn i bob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru a Bwrdd Iechyd Lleol Powys adolygu, a lle bo'n berthnasol, diweddaru a gwella eu trefniadau llywodraethu ac arferion gweithredol mewn perthynas â sicrhau ansawdd data yn unol â'r holl argymhellion a nodwyd uchod yn seiliedig ar yr arferion gorau a amlygwyd yn adroddiad Ymweliadau Safle i Sicrhau Ansawdd Data.

**Trefniadau monitro**

Bydd cydymffurfiaeth â'r argymhellion hyn yn cael ei fonitro trwy Safonau Gofal Iechyd Cymru y GIG (Safon 25) o 2009/10 ymlaen.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r adolygiad hwn a'i argymhellion at:

David Hawes – Rheolwr Gwella Ansawdd Data
Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gorfforaethol
6ed Llawr Churchill House
Ffordd Churchill
Caerdydd CF10 2HH

Ffôn: 029 2020 7606
E-bost: david.hawes@pmuw.wales.nhs.uk

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk